# Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Adfywio Cymunedol

## Rhagair

Wrth ddechrau ar ei adolygiad, roedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ymwybodol o'r cyfraniad aruthrol y mae prosiectau adfywio cymunedol yn ei wneud o ran gwella ansawdd bywyd ledled Cymru. Roedd enghreifftiau yn etholaethau pob un o aelodau'r Pwyllgor o brosiectau cymunedol a oedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn, a hynny o dan amgylchiadau anodd iawn yn aml. Diben yr Adolygiad o Adfywio Cymunedol oedd ystyried y prif ffactorau sy'n effeithio ar adfywio cymunedol yng Nghymru, ac asesu rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran creu'r amodau mwyaf ffafriol ar gyfer y gwaith hwn.

Mae'r Mynegai Amlamddifadedd yn dangos bod lefelau uchel o dlodi ac anfantais gymdeithasol yng Nghymru, a'u bod yn cael effaith negyddol ar nifer o unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n dangos hefyd nad dim ond ardaloedd diwydiannol Cymru sy'n dioddef; effeithir hefyd ar gymunedau gwledig ym mhob cwr o'r wlad.

Yn ffodus, yr wyf yn ymwybodol hefyd o ymrwymiad ac egni aruthrol llu o gymunedau a sefydliadau sy'n mynd ati i wella bywyd yn eu cymunedau. Mae'r sector statudol, cyrff gwirfoddol ac aelodau'r gymuned yn cymryd rhan mewn llu o brosiectau partneriaeth ledled Cymru sy'n darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau ar lefel y gymuned.

Mae'r argymhellion yn yr adolygiad yn seiliedig ar gorff mawr o dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor, ac fe'u cyflwynir er mwyn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i symleiddio a gwella ei pholisïau hi ei hun a pholisïau'r Cyrff a Noddir ganddi. Bwriedir iddynt hefyd fod yn fodd i ddatblygu amgylchedd lle rhoddir cefnogaeth i'r grwpiau a'r asiantaethau sy'n gweithio ym maes adfywio cymunedol, ac yn fodd i hwyluso'u gwaith. Yn fynych, mae'r gwaith hwn yn galed ac yn anodd, a bwriedir i'r argymhellion yn y ddogfen hon chwalu cymaint â phosibl o'r rhwystrau sy'n llesteirio'r gwaith hwnnw. Trwy weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, llwyddir i wneud llawer iawn i gefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau Cymru.

Wrth iddo ymgymryd â'r adolygiad, roedd y Pwyllgor yn hynod ddiolchgar am y cyflwyniadau a'r dystiolaeth a gafwyd, ac yr wyf yn siwr y bydd holl aelodau'r Pwyllgor am i mi ddiolch i bawb a gyfrannodd.

Gwenda Thomas AC

**Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

## Rhagarweiniad

Mae’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn un o saith pwyllgor pwnc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Thai, Edwina Hart, sy'n aelod o'r Pwyllgor. Mae'n cynnwys polisi a chyllid Llywodraeth Leol, tai, adfywio trefol ac atal troseddu (ond nid yw'n cynnwys cyfrifoldeb cyffredinol y Gweinidog dros Gyllid).

Nod y Pwyllgor yw gwella ansawdd bywyd pobl Cymru a hyrwyddo llywodraeth symlach a gwell. Dyma’i amcanion:

- helpu pobl leol, yn arbennig y rheini sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus lle ceir cartrefi boddhaol, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel nad yw'n fygythiol a lle na chyflawnir troseddau;
- darparu gwerth am arian i bobl Cymru, ynghyd â gwasanaethau gwell a mwy effeithlon;
- symleiddio gwaith y Cynulliad a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a’r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol.

**Aelodaeth y Pwyllgor**

Mae'r aelodau a ganlyn ar y Pwyllgor:

Gwenda Thomas (Cadeirydd) Castell-nedd

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

William Graham Dwyrain De Cymru

Edwina Hart (Gweinidog) Gyr

Pauline Jarman Canol De Cymru

Peter Law Blaenau Gwent

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

Tom Middlehurst Alun a Glannau Dyfrdwy

Janet Ryder Gogledd Cymru

**PENNOD UN: Y Cefndir i'r Adolygiad**

1.1 Gwaetha'r modd, mae llawer o'n cymunedau yng Nghymru wedi dioddef dirywiad economaidd ar

raddfa fawr dros gyfnod maith, ac mae cysylltiad agos rhwng y dirywiad hwnnw a thranc y diwydiannau traddodiadol, sef cloddio am lo, cynhyrchu dur a gweithgynhyrchu trwm. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd caledi economaidd tebyg mewn cymunedau gwledig o ganlyniad i'r argyfwng sy'n datblygu ym maes amaethyddiaeth. Waeth lle y'u gwelir yng Nghymru, canlyniad tlodi cynyddol ac anfantais gymdeithasol yw dirywiad yn ansawdd bywyd llawer o'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau. Gwaethygir y caledi economaidd gan amrediad eang o anfanteision o ran iechyd, addysg, trafnidiaeth a hamdden. Yr enw a roddir ar yr anfanteision hyn bellach yw allgáu cymdeithasol.

1.2 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu cymunedau Cymru, ac yn ei ddogfen Gwell Cymru, amlinellir amcanion allweddol er mwyn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol. Ers datganoli, datblygwyd amrediad eang o bolisïau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau Cymru, ac sy'n cyfrannu at y gwaith o'u hadfywio'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae adfywio cymunedol wedi datblygu'n thema ganolog ym maes polisi yng Nghymru. Mae polisïau allweddol megis Pobl Mewn Cymunedau, Cymunedau Cynaliadwy a Chanolfannau Byw'n Iach yn braenaru'r tir ar gyfer datblygu'r Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru trwy weithredu i adfywio'r cymunedau hynny.

1.3 Yn erbyn y cefndir hwn o weithgarwch cynyddol ym maes adfywio cymunedol yng Nghymru, aeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ati i gynnal Adolygiad o Adfywio Cymunedol er mwyn magu dealltwriaeth lawn o'r materion sy'n effeithio ar hyn o bryd ar weithredu polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol ym maes adfywio cymunedol.

## Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

1.4 Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd ystyried:

- y polisïau a'r rhaglenni adfywio cymunedol a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff a noddir ganddo, gyda golwg ar wneud argymhellion ynghylch symleiddio'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes a gwella'r trefniadau ar gyfer eu rhoi ar waith;
- y cyllid ar gyfer y polisïau a'r rhaglenni hynny;
- y rhan y gall gweithio mewn partneriaeth ei chwarae wrth ddatblygu'r gwaith o adfywio cymunedau;
- pa faterion eraill y dylai'r pwyllgor fynd i'r afael â hwy o safbwynt yr agweddau eraill ar yr agenda adfywio cymunedol, gan roi ystyriaeth i'r gwaith sydd wedi'i wneud ar gyfer y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

1.5 At hynny, yn y ddogfen a oedd yn amlinellu cylch gorchwyl yr adolygiad, nodwyd amrediad o faterion y gellid mynd i'r afael â hwy wrth fynd ati i gasglu gwybodaeth fanwl am gyd-destun adfywio cymunedol yng Nghymru. Rhoddir manylion llawn y Cylch Gorchwyl yn Atodiad Un.

## Y Broses Adolygu

- Ym mis Awst 2001, ysgrifennodd y Pwyllgor at oddeutu 90 o sefydliadau i ofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r adolygiad (Rhestrir y papurau a gyflwynwyd yn Atodiad Dau)
- Ym mis Hydref 2001, penododd y Pwyllgor yr Athro David Adamson, Cyfarwyddwr y Rhaglen Adfywio Cymunedol ym Mhrifysgol Morgannwg, yn Ymgynghorydd Arbenigol i gynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd gan gyrff perthnasol
- Ym mis Tachwedd 2001, dechreuodd y Pwyllgor wrando ar gyflwyniadau llafar gan amrediad eang o asiantaethau a sefydliadau (Fe'u rhestrir yn Atodiad Tri)
- Ym mis Ionawr 2002, cychwynnodd y Pwyllgor ar raglen o ymweliadau â phrosiectau adfywio cymunedol (Fe'u rhestrir yn Atodiad Pedwar)

Mae'r amryfal ffynonellau tystiolaeth hyn wedi darparu sylfaen wybodaeth eang, ac ar sail yr wybodaeth honno, mae'r Pwyllgor wedi llwyddo i nodi amrediad o faterion sy'n effeithio ar y broses adfywio cymunedol yng Nghymru ar hyn o bryd. Dyna yw sail yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, a gafodd sêl bendith y Pwyllgor llawn ar 22 Mai 2002.

**PENNOD DAU: Y Materion a Ystyriwyd gan y Pwyllgor, a'i Argymhellion**

2.1 Wrth gynnal yr Adolygiad, mae aelodau'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan amrediad eang o sefydliadau sy'n gweithio ym maes adfywio cymunedol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cyfres o 18 o Argymhellion i'w hystyried gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau. Ceir crynodeb ohonynt ar ffurf tabl yn Atodiad Pump.

2.2 Mae'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor wedi amrywio o ran maint a chyfrifoldeb, gan amrywio o sefydliadau cenedlaethol mawr megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i grwpiau adfywio lleol bach megis Canolfan Adnoddau Cymunedol y Mount, Sir Benfro. Er bod y sefydliadau sydd wedi cyflwyno tystiolaeth mor amrywiol, mae consensws amlwg ar nifer o faterion allweddol:

- Mae angen ymdrech ar y cyd gan yr holl asiantaethau yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r amddifadedd a'r tlodi a welir yng nghymunedau Cymru
- Cefnogaeth unfrydol i'r amcanion yn Gwell Cymru sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol
- Cytundeb mai trwy roi rhan i'r gymuned y mae llwyddo i ddileu tlodi ac allgáu cymdeithasol
- Derbyn y rhan flaenllaw y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i chwarae, a chefnogaeth i'w bolisi canolog, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

2.3 Y tu allan i'r consensws hwn, ceir syniadau gwahanol ar sut i weithredu, ar yr arferion gorau, ac ar fanylion gweithredu rhaglenni megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Er hynny, o ystyried pa mor amrywiol yw'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses adfywio, a'r traddodiadau gwahanol sydd gan yr amryfal sectorau, ymddengys eu bod yn rhannu'r un set o werthoedd ac amcanion. O'r herwydd, mae'r amodau'n ffafriol iawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i ddatblygu'i bolisi ar adfywio ymhellach, a rhydd

yr adolygiad gyfle ychwanegol i ymarferwyr ac i sefydliadau cymunedol ein hysbysu am y materion a'r problemau sy'n codi ar hyn o bryd. Mae cytundeb hefyd ynghylch y materion allweddol yn y broses adfywio. Trwy ymweld â phrosiectau, gwelir bod y rheini sy'n gweithio yn y maes yn wynebu problemau tebyg waeth beth yw lleoliad a natur benodol y gwaith a wneir.

2.4 Mae'r consensws a geir ar faterion allweddol sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol yng Nghymru yn drawiadol, ac fel yr awgrymwyd eisoes, ymddengys fod y rhan fwyaf o'r asiantaethau adfywio yn barod i roi cefnogaeth lawn i amcanion Gwell Cymru a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf er mwyn mynd â'r maen i'r wal. Mae'r Pwyllgor am gymeradwyo'r consensws hwn, ac am fynegi'i gefnogaeth i nodau a chyfeiriad y polisi presennol ar adfywio cymunedol. Mae'r Pwyllgor yn bendant o'r farn mai dim ond os y rhoddir rhan lawn i'r cymunedau eu hunain, a dim ond os yw'r cymunedau hynny'n gwbl ymroddedig, y gellir symud ymlaen i adfywio cymunedau. Gwelir y canlyniadau gorau pan fo pobl yn y gymuned yn cael eu galluogi i wella pethau drostynt eu hunain.

***Argymhelliad 1:*** *Bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn uniaethu â'r consensws yng Nghymru ynghylch yr amcanion ar gynhwysiant cymdeithasol yn Gwell Cymru, ac yn ei gefnogi, ac yn cymeradwyo'r cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf fel modd i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'n cydnabod egwyddorion a gwerthoedd partneriaeth a rhoi rhan i'r gymuned, ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo'r egwyddorion a'r gwerthoedd hynny ym mhob un o'i bolisïau ar adfywio cymunedol.*

**CYLLID**

2.5 Un o'r agweddau allweddol ar Gylch Gorchwyl yr adolygiad oedd ystyried sut i gyllido adfywio cymunedol. Yn gynnar yn y broses o gynnal yr Adolygiad, daeth yn amlwg bod cyllid ar gyfer gweithgarwch adfywio cymunedol ar bob lefel yn peri pryder mawr i bawb a gyflwynodd dystiolaeth. Mae bron pob un sydd wedi mynegi barn ger bron y Pwyllgor wedi sôn am broblemau sy'n gysylltiedig â chyllid. Mae'r dystiolaeth ryngwladol hefyd yn awgrymu mai'r anhawster mawr cyffredin wrth adfywio cymunedau yw cyllid, ac nid yw Cymru'n eithriad.

2.6 Gallwn nodi sawl gwelliant o bwys yn yr amgylchiadau cyllido yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys:

- Cyllid y Loteri a Chomisiwn y Mileniwm
- Ffynonellau cyllid gan y Cynulliad, megis Pobl mewn Cymunedau a Chymunedau Cynaliadwy.
- Y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, a'i ymrwymiad i gyllido tymor hir
- Y rhaglen Amcan Un

2.7 Er hynny, mae pob sefydliad sydd wedi cyflwyno adroddiad wedi nodi bod anawsterau cyson wrth sicrhau cyllid digonol. Mae'r pryderon cyffredin yn gysylltiedig â nifer o faterion allweddol:

### a. **Cymhlethdod y rhaglenni cyllido**

Soniodd pob un o'r prosiectau yr ymwelwyd â hwy am y 'frwydr barhaus' i sicrhau cyllid. Roedd gan bob un ohonynt bortffolios cyllido cymhleth a oedd yn ddibynnol ar ffynonellau amrywiol. Roedd hyn yn creu beichiau gweinyddol trwm, ac yn golygu bod y staff yn treulio llawer o'u hamser ac yn defnyddio llawer o'u hegni i sicrhau bod y ffynonellau cyllido'n parhau. Bernid bod y rhaglenni'n gymhleth ac yn anodd eu deall, bod y gweithdrefnau ymgeisio'n gymhleth, a'r dyddiadau cau a'r meini prawf cymhwyster yn amrywio'n fawr (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Busnes yn y Gymuned). Teimlai'r sefydliadau ei bod yn anodd iddynt gael gwybodaeth am yr holl gyfleoedd cyllido ac am yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid. Roedd cefnogaeth amlwg i'r syniad o symleiddio a chyfuno'r amryfal ffynonellau cyllido mewn un rhaglen gyllido fwy clir a chydlynus. Er bod Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cyfrannu at broses o'r fath, mae nifer mawr o'r ffynonellau cyllido sy'n effeithio ar adfywio cymunedol yn gymhleth ac yn amrywio'n fawr o ran meini prawf cymhwyster, y gweithdrefnau ymgeisio a'r hyn y caniateir gwario'r cyllid arno. Yn ystod yr Adolygiad, gwelwyd bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros 60 o ffynonellau cyllido sy'n cael effaith ar lefel y gymuned. At hynny, Cyrff a Noddir gan y Cynulliad sy'n gyfrifol am lawer o'r ffynonellau cyllido. Mae'n bwysig nodi hefyd fod ffynonellau cyllido allweddol yn cael eu gweinyddu gan asiantaethau nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw reolaeth drostynt.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn dangos bod angen mawr ad-drefnu a symleiddio'r systemau cyllido cymhleth hyn a sicrhau bod ymdrechion i gael gafael ar gyllid yn cael eu symleiddio a'u hwyluso. Trwy gysylltu â'i gilydd a chyd-drefnu'u gwaith, gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru, y cyrff a noddir ganddo, a'r asiantaethau cyllido allweddol megis Comisiwn y Loteri wneud llawer i ad-drefnu rhaglenni cyllido a llunio amcanion cyffredin ym maes adfywio cymunedol (Busnes yn y Gymuned). Mae hwn yn faes allweddol lle gallai gweithio ar y cyd fod o fudd mawr. Roedd cyrff cymunedol megis Canolfan Adnoddau Cymunedol y Mount, Antur Nantlle ac Ymddiriedolaeth Datblygu Ebwy Fach hefyd yn teimlo y byddai cael gwybod ymlaen llaw am y cyllid a oedd ar gael, a chyfnodau hwy rhwng yr hysbysiadau am gyfleoedd cyllido, o gymorth mawr o ran ysgafnhau'r pwysau sy'n rhan o'r broses gyllido. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, mae'r Pwyllgor wedi llunio tri argymhelliad.

***Argymhelliad 2:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi crynhoad a chalendr blynyddol o ffynonellau cyllido, ynghyd â'r dyddiadau a'r dyddiadau cau cysylltiedig.*

***Argymhelliad 3:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i gyfuno'r ffynonellau y mae ef a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn eu cynnig.*

***Argymhelliad 4:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae rôl*

*gyd-gysylltu barhaol er mwyn cysoni ac integreiddio'r cyllid sydd ar gael ym maes adfywio cymunedol*

*ledled Cymru. Dylai greu fforwm lle mae ef, y cyrff a noddir ganddo, ac asiantaethau cyllido eraill (e.e. y Loteri Genedlaethol), yn datblygu system gyllido sydd wedi'i chyd-gysylltu o safbwynt ei hamcanion, ei methodoleg a'i hamserlenni.*

**b) Y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyllido**

Yn ogystal â'r strwythur cyllido cymhleth hwn, cyflwynwyd tystiolaeth sy'n awgrymu bod y rheini sy'n gwneud cais am gyllid yn wynebu llawer iawn o fiwrocratiaeth (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Canolfan Adnoddau Cymunedol y Mount, Antur Nantlle, Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach). Daw sawl problem allweddol i'r amlwg:

- Ychydig iawn o rybudd am gyfleoedd cyllido, a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn rhai tynn
- Oedi hir wrth gymeradwyo neu bwyso a mesur cynigion
- Yr angen am dystiolaeth manwl a chynhwysfawr, hyd yn oed ar gyfer ceisiadau bach
- Oedi cyn talu grantiau a'r symiau a ddyfarnwyd
- Gofynion rhy drwm o ran cynlluniau busnes a chyfrifon archwiliedig ar gyfer symiau bach o arian grant

Er bod rhai o'r problemau hyn yn ganlyniad i weithdrefnau sy'n gysylltiedig ag archwilio ac atebolrwydd, mae yna ganfyddiad bod llawer o'r gweithdrefnau hyn yn seiliedig ar arferion ac ar draddodiad, a bod modd eu newid. Trwy chwalu rhwystrau o'r fath, llwyddir i hyrwyddo gwaith adfywio, a bydd yn haws i gymunedau chwarae rhan yn y gwaith hwnnw. Ar hyn o bryd, mae llawer o gyrff cymunedol yn teimlo bod gofynion biwrocrataidd y systemau cyllido yn eu llesteirio rhag gwneud cais am gyllid. Roedd canfyddiad ymhlith mwyafrif y prosiectau y bu'r Pwyllgor yn ymweld â hwy bod y gweithdrefnau ymgeisio, a chymhlethdod y ffurflenni cais, yn rhwystro pobl rhag gwneud ceisiadau. Yr enghraifft a roddwyd amlaf oedd y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag Amcan Un. Mae llawer o'r materion a nodwyd yn ganlyniad i ofynion gweithdrefniadol Cronfa Datblygu Rhanbarthol a Chronfa Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd, ond roedd y grwpiau'n teimlo bod biwrocratiaeth leol hefyd yn eu rhwystro rhag cael gafael ar gyllid.

Un pwynt mwy cadarnhaol oedd bod y cyrff yn dweud bod gweithdrefnau'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn fwy ymatebol ac yn llai biwrocrataidd, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt. Mae gan y Pwyllgor ddau argymhelliad, a fyddai, o'u gweithredu, yn cael gwared ar nifer o'r problemau hyn sy'n gysylltiedig â chyllid ar gyfer adfywio cymunedol.

***Argymhelliad 5:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu ac yn symleiddio'i holl weithdrefnau cyllido er mwyn cael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen, a'i fod yn annog asiantaethau cyllido eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.*

***Argymhelliad 6:*** *Bod y dyddiadau penderfynu'n cael eu pennu'n gynnar, ac yn cael eu cyhoeddi yn y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni. Dylid rhoi amser rhesymol i gyrff ymateb, gan roi chwech*

*wythnos cyn y dyddiad cau, fel rheol, i gyrff gyflwyno cynigion.*

**c) Cyllid Craidd**

Y pryder mwyaf o bell ffordd ynghylch cyllid oedd yr anawsterau yr oedd pob corff yn eu cael wrth ddod o hyd i gyllid craidd (Datblygu Cymunedol Cymru, Menter Gymunedol Cymru, Community Matters, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot). Mae'r gwahaniaeth rhwng cyllid craidd a chyllid ar gyfer prosiectau yn hanfodol ym maes adfywio cymunedol. Fel rheol, mae cyllid ar gyfer prosiectau ar gael o amrediad eang o ffynonellau, a cheir ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau penodol sy'n rhan o brosiectau. Er hynny, caiff cyllid o'r fath ei glustnodi at ddibenion penodol ac ni ellir ei ddyrannu ar gyfer costau craidd y sefydliad. Mewn cyferbyniad, ychydig iawn o ffynonellau cyllido sy'n darparu cyllid craidd, ac mae llawer o gyrff adfywio cymunedol yn ei chael yn anodd cadw staff gweinyddol craidd a chynnal adeiladau. Roedd prosiect Parc Caia yn Wrecsam yn nodweddiadol o'r prosiectau yr ymwelwyd â hwy o ran yr anawsterau a brofodd wrth gael gafael ar gyllid craidd. Un o'r pryderon mawr oedd bod staff allweddol yn cael eu cyflogi ar gontractau tymor byr a bod hyn yn arwain at ddiffyg sefydlogrwydd i'r sefydliad. Cyfeiriodd Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach hefyd at yr effeithiau yr oedd hyn yn ei chael ar forâl y staff ym misoedd olaf y contractau, gan olygu bod y prosiectau'n llai effeithiol. Cyfeiriodd llawer o'r sefydliadau at eu rôl o ran darparu gwasanaethau, sy'n golygu y byddant bob amser yn ddibynnol ar gyllid er mwyn cyflawni'u rôl. Teimlent na ddylid disgwyl i brosiectau sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau difreintiedig fod yn hunan-gynhaliol. Dylent elwa ar broses barhaus o 'fuddsoddi' mewn cymunedau (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru). Mae'r ffaith nad yw'n hawdd cael cyllid craidd yn achosi anawsterau mawr i'r sefydliadau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Diffyg sefydlogrwydd ariannol yn y tymor hir yn llesteirio datblygiad strategol
- Anawsterau wrth gadw staff sydd ar gontractau tymor byr, a drefnir, yn aml, flwyddyn yn unig ymlaen llaw
- 'Bylchau cyllido' yn dod i'r amlwg yn aml, sy'n creu argyfwng i'r sefydliadau. Mae hyn yn golygu'n aml nad yw staff yn cael cyflog, bod personél allweddol sydd wedi'u hyfforddi yn cael eu colli, bod yn rhaid cwtogi ar weithgareddau a chau adeiladau dros dro.

Mae'r materion hyn yn codi er bod cyrff cymunedol yn rheoli adnoddau mewn ffordd hynod fedrus. Mae'r broblem yn un strwythurol y mae angen ymyrraeth ar y lefel uchaf er mwyn ei datrys. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl o bwys yn hyn o beth. O'i roi'n syml, mae llawer o'r cyrff cymunedol yn diwallu angen yn y gymuned nad yw gwasanaethau'r brif ffrwd yn eu diwallu. Ar hyn o bryd, mae gwaith y cyrff cymunedol hyn yn ategu amcanion y Cynulliad Cenedlaethol a darpariaeth yr awdurdodau lleol. Heb y gwasanaethau hyn, byddai'r rhan fwyaf o'r cymunedau difreintiedig mewn cyflwr difrifol. Byddai cydnabod hyn trwy ddatblygu system gyllido sefydlog yn cael effaith sylweddol o ran atgyfnerthu gwaith adfywio cymunedol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor, felly, yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

***Argymhelliad 7:** Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati ar fyrder i ddatblygu ffynhonnell gyllido sy'n golygu bod modd rhoi cyllid craidd i brosiectau a chyrff adfywio cymunedol sydd wedi*

*ymsefydlu. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori'n eang â'r grwpiau hynny sy'n gweithio ym maes adfywio cymunedol er mwyn penderfynu ar ddulliau dyrannu, y meini prawf cymhwyster a'r gweithdrefnau gweinyddol.*

**d) Swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer Adfywio Cymunedol**

Mae'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor wedi cwestiynu pa mor ddigonol yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer adfywio cymunedol yng Nghymru. Tra'n croesawu'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, roedd nifer o'r farn nad oedd hi wedi'i chyllido'n ddigonol ar gyfer y dasg enfawr o adfywio yng Nghymru. Hefyd, roedd nifer o'r farn bod canoli adnoddau prin yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn gadael cymunedau eraill, nad ydynt ond ychydig yn fwy difreintiedig, heb gymorth o gwbl (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Gwnaed cymariaethau â chyfleoedd cyllido yn Lloegr, lle ceir tystiolaeth anecdotaidd bod mwy o gyllid ar gael. Mae cymharu'r ddwy sefyllfa yn uniongyrchol yn anodd oherwydd bod cymaint o wahaniaethau yn y modd y darperir cyllid yng Nghymru a Lloegr. Serch hynny, ceir argraff gyffredinol ymhlith llawer sy'n gweithio yn y sector adfywio bod y cyllidebau cyfun yn Lloegr wedi darparu mwy o gyllid i rai awdurdodau lleol mewn dinasoedd nag y derbyniodd Cymru gyfan. Mae angen rhagor o ymchwil cyn medru cadarnhau'r farn hon. Wrth ystyried y safbwyntiau hyn, roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd fawr o werth cymharu'n uniongyrchol â Lloegr, oherwydd bod y polisïau unigryw yn gwneud unrhyw gymhariaeth yn anodd ac annibynadwy. Teimlwyd hefyd mai'r mater allweddol yn y cyd-destun hwn oedd penderfynu a oedd y cyllid sydd ar gael ar gyfer adfywio cymunedol yng Nghymru yn ddigonol ar gyfer y dasg, yn hytrach nag a oedd y swm yn gyfartal â'r symiau a geir mewn rhannau eraill o'r DU. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

***Argymhelliad 8:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r gyllideb adfywio cymunedol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o gyllid ar gael i hyrwyddo rhaglen fywiog o adfywio cymunedol yng Nghymru.*

Ar y cyd, mae'r argymhellion hyn ynghylch cyllid yn mynd i'r afael â'r prif bryderon a fynegwyd yn y cyflwyniadau i'r adolygiad. O'u gweithredu, byddent yn cael gwared ar y rhwystrau allweddol sy'n atal grwpiau rhag gwneud cais am gyllid, a byddent yn lleihau cymhlethdod a biwrocratiaeth y profiad o wneud cais am arian.

**DATBLYGU GALLU**

Yn gynyddol, mae polisi cymdeithasol yn ceisio annog rhan-ddeiliaid i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni, yn enwedig mewn polisïau sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae angen cyfraniad mawr gan y gymuned ar gyfer camau o'r fath, ac mae gofyn am sgiliau a safonau gweithredu proffesiynol gan aelodau cyffredin y gymuned. Ceir consensws yn llenyddiaeth y sector adfywio cymunedol bod cymryd rhan yn y fath fodd yn hanfodol i broses adfywio cymunedol effeithiol, ond hefyd ceir cydnabyddiaeth ei bod yn anodd hyrwyddo a datblygu'r cyfleoedd i gymryd rhan. Mae cynyddu gallu'r gymuned i gymryd rhan yn gofyn am strategaeth a rhaglenni datblygu cymunedol a phersonol tymor-hir. Mae datblygu gallu yn fater sydd wedi'i archwilio'n fanwl gan fentrau Llywodraeth

Cynulliad Cymru, yn enwedig y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Cydnabyddir hyn yn un o ofynion y rhaglen honno, sef y dylai partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ddatblygu Cynllun Datblygu Gallu ochr-yn-ochr â'r Cynllun Gweithredu Cymunedol. Mae llawer o'r sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth wedi mynegi pryder ynghylch parodrwydd y cymunedau i gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o adfywio, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes dim neu bron ddim hanes o weithredu cymunedol gan aelodau'r gymuned honno. Roedd ELWa yn dymuno datblygu ei weithgareddau er mwyn diwallu'r holl gyfleoedd i ddysgu y mae gweithgareddau cymunedol yn eu cynnig, ac roedd yn neilltuo adnoddau ar gyfer 'dysgu trwy'r gymuned'. Y pryder cyffredinol (Datblygu Cymunedol Cymru, Menter Gymunedol Cymru, Coleg Llandrillo a Choleg y Rhyl) oedd bod cymaint o bolisïau lle mae'n rhaid wrth elfen allweddol o gyfraniad gan y gymuned, a bod angen cyfatebol wedyn am waith sylweddol i ddysgu technegau er mwyn cefnogi'r ymdrech i gynyddu gallu cymunedau. Mae'r pryderon hyn wedi'u nodi gan y Pwyllgor, ac mae'n argymell y canlynol:

***Argymhelliad 9:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manteisio ar bob cyfle i ddarparu Cynlluniau Gweithredu Cymunedol a Chynlluniau Datblygu Gallu er mwyn sicrhau y gellir datblygu a chynyddu gallu cymunedau.*

Hefyd, mynegwyd pryder ynghylch gallu trefniadol yr asiantaethau cyhoeddus allweddol i weithio, o fewn y fframwaith adfywio cymunedol sydd wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddar, mewn modd sy'n sensitif i anghenion cymunedau. Mae rolau a swyddogaethau gweinyddol newydd gan yr awdurdodau lleol, yr awdurdodau iechyd a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae hyfforddiant staff wedi bod yn araf i ddilyn y fath ddatblygiadau ac mae llawer o weithwyr y sector cyhoeddus yn canfod eu hunain yn gweithio am y tro cyntaf yn y cyd-destun cymunedol. Mae eu gallu i weithio'n sensitif yn y fath gyd-destunau yn gofyn am broses ddatblygu gallu tebyg i'r broses sydd ei hangen ar aelodau'r gymuned. Ceir enghreifftiau o arferion gorau yn y maes hwn. Er enghraifft cychwynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe gynllun hyfforddi ar gyfer pob un o'i dîm Rheoli Tai er mwyn hyrwyddo dulliau o weithio sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned. Dan yr enw *The Knowledge*, diben y rhaglen hon oedd ailgyfeirio gwasanaethau tai i diwallu anghenion y tenant. Er mwyn hyrwyddo gallu trefniadol ym maes adfywio cymunedol, mae'r Pwyllgor yn gwneud dau argymhelliad:

***Argymhelliad 10:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'r holl asiantaethau perthnasol er mwyn hyrwyddo safonau uchel o weithio yn y gymuned wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

***Argymhelliad 11:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu fforwm lle bydd pob partner ac asiantaeth berthnasol yn datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer Gallu ym maes Adfywio Cymunedol. Byddai'r fforwm yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Rhwydwaith Cymorth y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ELWa, Awdurdod Datblygu Cymru, Colegau Addysg Bellach, Prifysgolion ac ystod o sefydliadau yn y gymuned.*

## PRINDER STAFF YM MAES ADFYWIO CYMUNEDOL

Mae sefydliadau wedi mynegi pryder ynghylch y ffaith bod y cyflenwad o weithwyr cymwys a phrofiadol ym maes adfywio cymunedol er mwyn cwrdd â gofynion mentrau newydd fel Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn prinhau (Asiantaethau Cymunedol ar gyfer Newid yn y Cymoedd, Datblygu Cymunedol Cymru, Coleg Llandrillo a Choleg y Rhyl, SPARC/Planed). Roedd llawer yn sôn am anawsterau wrth recriwtio staff addas, sefyllfa sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i'r nifer mawr o swyddi a grëwyd gan dimau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yr Awdurodau Lleol. Roedd prosiectau annibynnol (er enghraifft Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach) yn teimlo eu bod yn colli staff oherwydd y cyflogau uwch, y contractau tymor-hir a'r gwell strwythurau gyrfa y mae'r awdurdodau lleol yn eu cynnig. Roedd asiantaethau hefyd yn pryderu nad oedd gweithwyr newydd o feysydd eraill y gwasanaethau cyhoeddus yn meddu ar y sgiliau a'r arferion gweithio sy'n angenrheidiol ar gyfer dull y sector adfywio cymunedol o weithio. Roedd rhai sefydliadau (Uned Pobl a Gwaith, Coleg Llandrillo a Choleg y Rhyl, Parc Caia, Wrecsam) yn dymuno darparu ffordd i aelodau'r gymuned a gwirfoddolwyr fanteisio ar addysg ac ennill cymwysterau a fyddai'n eu galluogi i fanteisio ar swyddi cyflogedig yn eu cymunedau ac mewn ardaloedd eraill. Ni allai cyrsiau Coleg a Phrifysgol yng Nghymru gynnig ateb tymor-byr i'r anawsterau hyn, oherwydd byddai'n rhaid treulio sawl blwyddyn yn ennill cymhwyster proffesiynol.

***Argymhelliad 12:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio gyda sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ELWa, y Consortiwm ar gyfer Hyfforddiant Adfywio Cymunedol, a sefydliadau cymunedol i fapio'r ddarpariaeth bresennol, i ddatblygu cyrsiau byr arloesol a chyfleoedd i ddysgu yn y gweithle, a hynny er mwyn galluogi gweithwyr newydd yn y maes i feithrin sgiliau'n gyflym. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r broses trwy gynnig cynllun bwrsariaeth er mwyn annog gweithwyr newydd yn y maes i fanteisio ar raglenni hyfforddiant.*

## Y BERTHYNAS GYDA PHARTNERIAID YN Y SECTOR STATUDOL

Un o brif amcanion yr adolygiad oedd mynd i'r afael â phartneriaeth a'r modd y mae'n gweithio o fewn y fframwaith polisi yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r adolygiad yn awgrymu'n gryf bod gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y gwaith o adfywio cymunedol yng Nghymru (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cymdeithas Tai'r Rhondda, Community Matters, Menter Gymunedol Cymru, SPARC/Planed). Serch hynny, nid yw'r farn hon yn anwybyddu'r tensiynau a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth. Un o'r pynciau pwysicaf yn y trafodaethau ar y pryderon hyn oedd y broblem o ormod o bartneriaethau, y tynnwyd sylw ati gan y rheini a gyflwynodd dystiolaeth. Roedd pryderon hefyd ynghylch y graddau y mae aelodau'r gymuned yn cymryd rhan mewn asiantaethau partneriaeth, a'r angen i osgoi cynrychiolaeth symbolaidd yn unig.

Ceir pryder cynyddol ynghylch yr angen i sicrhau bod cymunedau'n cael chwarae rhan gynhwysfawr mewn partneriaethau adfywio, a hynny mewn modd sy'n rhoi'r gallu iddynt weithredu, ac nad yw'r broses honno yn un symbolaidd a ffals. Cafwyd darlun cymysg ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ac wrth ymweld â phrosiectau cymunedol, gwelwyd arferion da a gwael. Yn gyffredinol, mae'r berthynas gyda chyrff statudol allweddol fel yr awdurdodau lleol, yr asiantaethau tai, yr awdurdodau iechyd ac awdurdodau'r heddlu yn ymddangos fel petaent yn gwella, ac mae llawer o gyrff o'r fath yn ymrwymo'n llawn i egwyddorion adfywio cymunedol.

Cafwyd nifer o enghreifftiau lle nad oedd hyn yn wir, lle roedd yn ymddangos nad oedd gan asiantaethau allweddol fel awdurdod lleol penodol fawr o gydymdeimlad ag amcanion a bennwyd gan y gymuned a'u bod yn eu llesteirio rhag llwyddo. Cafwyd enghreifftiau o anawsterau gyda swyddogion ac aelodau etholedig lleol. Cafwyd sôn am y fath anawsterau drosodd a thro trwy'r holl sector, ac i raddau maent yn ganlyniad i'r newidiadau cyflym yn y modd y disgwylir i gyrff statudol weithio gyda'u cleientiaid. Ar ochr arall y geiniog, cafwyd enghreifftiau o arferion gorau o safon ryngwladol, lle roedd cyrff statudol yn darparu arweinyddiaeth gymunedol, sgiliau proffesiynol ac adnoddau er mwyn sicrhau y gallai cymunedau gyflawni eu hamcanion.

Daw'r Pwyllgor i'r casgliad bod cyrff statudol yn chwarae rôl allweddol yn y broses o adfywio cymunedol. Yn amlwg, fel prif ddarparwyr gwasanaethau, mae ganddynt rôl ganolog i'w chwarae yn y gwaith o adfywio pob cymuned ddifreintiedig. Un o brif elfennau'r broses o adfywio cymunedol yw gwella'r gwasanaethau y mae cymunedau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yn eu derbyn. Felly, mae asiantaethau statudol yn aelodau hollbwysig o bartneriaethau adfywio cymunedol. Darparodd cyflwyniad Brigadau Tân Cymru enghraifft ddelfrydol o'r manteision a geir pan fo asiantaeth statudol yn cydweithio â chymunedau er mwyn cyflawni nodau sy'n gyffredin rhyngddynt. Mae'r gymuned a'r sefydliad ill dau yn manteisio ar well perfformiad a gwell canlyniadau. Mae hefyd yn amlwg bod yn rhaid i asiantaethau statudol gydnabod rôl a chyfraniad y sectorau gwirfoddol a chymunedol pan yn gweithio mewn partneriaeth. Er mwyn llwyddo, mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a mentrau tebyg yn dibynnu ar ymelwa ar wybodaeth ac ymrwymiad aelodau'r gymuned.

Mae awdurdodau lleol yn enghraifft benodol o sefyllfa lle mae'r graddau y mae'r sefydliad yn cydweithio â'r gymuned yn ffactor bwysig wrth bennu pa mor lwyddiannus y bydd eu proses o adfywio cymunedol. Wrth dderbyn tystiolaeth, clywodd y Pwyllgor ystod o safbwyntiau ynghylch rôl awdurdodau lleol yn y broses adfywio. Roedd rhai'n croesawu'r dull partneriaeth o weithredu'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ond hefyd yn tynnu sylw at y rôl ganolog sydd gan yr Awdurdodau Lleol fel rheol i'w chwarae ym maes adfywio economaidd a chymunedol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent). Roedd swyddogaethau arweinyddiaeth gymunedol a chynllunio cymunedol llywodraeth leol yn rhoi gallu mawr iddi arwain y broses adfywio, yn enwedig lle nad yw'r gymuned yn mynd ati i drefnu'i hun.

Roedd ymatebion eraill (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, GAVO, Community Matters, Ms J Bird) yn tynnu sylw at fanteision mawr cyfranogiad cymunedol a datblygu perchnogaeth leol ar brosiectau adfywio trwy gydweithio mewn partneriaeth. Roeddent yn nodi gwerth galluogi aelodau'r gymuned i gyfrannu, ac yn gweld gwerth mewn symud tuag at reoli'n lleol, lle bo'r rheolaeth wasanaethau yn nwylo'r gymuned. Mewn mannau eraill, mae'r dystiolaeth o gydweithio mewn partneriaeth glòs rhwng sefydliadau adfywio ac awdurdodau lleol (tystiolaeth Antur Nantlle Cyf., Rhiwgarn) yn rhoi darlun o'r manteision sylweddol y gellid eu sicrhau ar lefel y gymuned, o fynd ati i weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r gwaith o adfywio cymunedol. Wrth ystyried rôl benodol awdurdodau lleol yn y broses adfywio, mae wedi bod yn bwysig i'r Pwyllgor ymelwa ar brofiad traddodiadol yr awdurdodau lleol ynghyd â'r manteision o roi cyfle i'r gymuned gymryd rhan, a'u galluogi i weithredu. Rhaid i'r broses hon o alluogi'r gymuned i weithredu fod yn un go-iawn, ac nid yn un symbolaidd (Datblygu Cymunedol Cymru, Coleg y Rhyl, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru).

Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r ffordd orau i gyflawni'r amcanion hyn fyddai trwy gydweithio mewn partneriaeth lle mae'r sectorau statudol, gwirfoddol, preifat a chymunedol yn datblygu fframwaith o bartneriaeth gyfartal, sy'n caniatáu i'r gymuned wneud cyfraniad uniongyrchol go-iawn. Mae'n argymell y canlynol:

***Argymhelliad 13:*** *Bod yr awdurdodau lleol yn gweithredu fel partneriaid cyfartal o fewn strwythur partneriaeth. Rhoddir cyllid i'r bartneriaeth, a rheolir y cyllid hwnnw gan benderfyniadau a wneir mewn partneriaeth, ac sy'n rhwymo pob un o'r partneriaid.*

Yn y partneriaethau y mae'n eu cyllido, mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ceisio'u hannog i symud tuag at berthynas o'r fath. Yn amlwg, mewn rhai lleoliadau mae angen gwaith datblygu gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill er mwyn hyrwyddo a datblygu'r modd cyfranogol hwn o weithio. Byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld yr arferion gorau o ran gweithio mewn partneriaeth yn cael eu datblygu a'u rhannu. Byddai hyn yn galluogi cymunedau i osgoi'r profiad o loteri yn ôl lleoliad wrth gymryd rhan yn y broses adfywio cymunedol. Ar hyn o bryd, nid oes mecanweithiau ar gyfer monitro ansawdd arferion gweithio'r partneriaethau adfywio yng Nghymru.

***Argymhelliad 14:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu system achredu partneriaethau adfywio cymunedol, er mwyn sicrhau y defnyddir yr arferion gorau yn gyson ym maes adfywio cymunedol ledled Cymru.*

## DARPARU ADNODDAU I'R SECTOR STATUDOL ANNOG Y GYMUNED I GYMRYD RHAN

Cydnabyddir ers tro bod manteision i weithio gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ond mae hefyd yn wir bod costau yn gysylltiedig ag arferion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Wrth gyflwyno eu modelau ar gyfer annog y gymuned i gymryd rhan, roedd y Gwasanaethau Tân yn pwysleisio'r manteision, ond hefyd yn pwysleisio'r gost. Mae'n anochel bod arian sy'n cael ei wario ar ddulliau cymunedol o weithio cael ei gymryd oddi ar adnoddau craidd. Mae hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau craidd, ond hefyd mae'n rhwystro sefydliadau rhag datblygu dulliau cymunedol o weithio. Gan fod manteision cydnabyddedig i'r rhan fwyaf o feysydd sy'n darparu gwasanaethau o gael y gymuned i gymryd rhan, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ffynonellau cyllido safonol yr asiantaethau statudol gynnwys swm penodol ar gyfer datblygu dulliau cymunedol o weithio. Byddai hyn yn ychwanegol at y lefelau cyllid presennol, er mwyn cydnabod y costau ychwanegol sy'n rhaid eu talu. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 15***: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno elfen grant yn ei chyllid ar gyfer 'darpariaeth gymunedol' gan y sector statudol a fyddai'n deillio o elfen o gyllid sy'n ychwanegol at lefelau cyllido yn y gorffennol.*

## DATBLYGU DULL RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF O WEITHIO

Yn y sylwadau a ddaeth i law, mynegwyd y farn bod y dull a fabwysiadwyd yn yr ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf o fudd i holl gymunedau Cymru (Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd). Cydnabyddir bod yn rhaid cyfeirio adnoddau at y cymunedau mwyaf difreintiedig. Serch hynny, teimlwyd hefyd y dylid annog eraill i ddefnyddio arferion gweithio Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn holl gymunedau Cymru. Mynegwyd pryder y gallau dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol esgeuluso anghenion grwpiau diddordeb arbennig (Age Concern, PAVO, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol). Hefyd, mynegwyd pryder ynghylch y cymunedau hynny sy'n profi bron cymaint o amddifadedd â'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a enwyd gan y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf dethol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Roedd rhai cynrychiolwyr yn teimlo bod ffiniau o'r math hwn yn rhy fympwyol ac yn milwrio yn erbyn ardaloedd a oedd, yn ôl y safonau arferol, yn ddifreintiedig (Community Networks Group). Mynegwyd safbwynt hefyd fod y dull partneriaeth o weithio o fudd i bawb, ac y dylid ei fabwysiadu hyd yn oed yn y cymunedau hynny y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi eu galw yn 'gymunedau lle mae cyfleoedd'. Byddai hyn yn gofyn am ffynhonnell gyllido i hyrwyddo datblygiad y dull partneriaeth o weithio ledled Cymru gyfan, ond yn amlwg nid i'r graddau sydd eu hangen yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Argymhelliad 16:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ffyrdd o ymestyn egwyddorion partneriaeth a chyfranogiad gan y gymuned (gan gynnwys darparu had-gyllid craidd), sef sail y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, i bob cymuned yng Nghymru.*

## RÔL LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Yn draddodiadol, ystyriwyd bod y broses o adfywio cymunedol yn weithgaredd 'o'r gwraidd i fyny', sy'n deillio o sefydliadau yn y gymuned. Mae mentrau polisi cymdeithasol diweddar wedi bod yn arloesol, ac maent yn rhoi sialensau newydd i'r llywodraeth gydweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o ran-ddeiliaid. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan ei fod am weithio mewn partneriaeth, ac mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ei ymrwymo i bartneriaeth gyda phob rhan-ddeiliad yn y broses adfywio. Mae'r dull arloesol hwn yn golygu bod yr holl sefydliadau yn dysgu sut y mae'r broses yn gweithio wrth iddi ddatblygu. Mae'r Gwerthusiad o'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau yn cynnig cyfle delfrydol i lywio datblygiad Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r broses o adfywio cymunedol yng Nghymru. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch canlyniadau'r adroddiad Gwerthusiad Interim o'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau. Mae'r gwersi sydd i'w dysgu ar gyfer y broses adfywio cymunedol yn y dyfodol yn cynnwys y farn y bydd yn rhaid wrth werthusiad effeithiol o'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf o'r cychwyn cyntaf, er mwyn rhoi cyfle cyson i fireinio'r modd y mae'n gweithredu er mwyn

sicrhau ei bod yn dal i ddatblygu, a sicrhau ei bod yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu arbenigedd yn y maes hwn, yn yr un modd ag y mae'n meithrin arbenigedd yn y gwasanaethau addysg ac iechyd.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu hyn yn ymwybodol, er mwyn hyrwyddo cysylltiadau effeithiol a deallus gyda'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mynegodd rhai sefydliadau a oedd yn cyflwyno tystiolaeth rwystredigaeth o weld perthynas weithio a oedd wedi'i meithrin dros gyfnod o amser yn dod i ben oherwydd bod staff yn symud yn fewnol y gwasanaeth sifil (SPARC/Planed). Roeddent yn teimlo bod diffyg arbenigedd a diffyg parhad ymysg y personél sy'n ymdrin â chynlluniau cyllido hollbwysig. Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Argymhelliad 17:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu corff o arbenigedd ar adfywio cymunedol yn fewnol, er mwyn sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda'r sector adfywio cymunedol. Gellid gwneud hyn trwy recriwtio staff o'r sector adfywio cymunedol, secondiadau, cysgodi swyddi a hyfforddiant mewnol i staff y Cynulliad.*

Yn ychwanegol at ddatblygu arbenigedd, gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru chwarae rôl bwysig yn y gwaith o hyrwyddo a rhannu'r arferion gorau ym maes adfywio cymunedol. Yn amlwg, cyflawnir y rôl hon ganddi eisoes i raddau oherwydd ei bod yn noddi sefydliadau yn y Rhwydwaith Rhoi Cymunedau'n Gyntaf er mwyn cefnogi'r rhaglen honno. Serch hynny, mae ganddi rôl arall yn y maes hwn hefyd, a allai ymestyn i fonitro neu 'blismona' perfformiad asiantaethau adfywio. Mae hyn yn cymharu â'r syniad o 'arolygiaeth' a geir ym maes y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft. Gyda chymaint o wariant cyhoeddus wedi'i neilltuo i'r maes polisi hwn a chyn lleied o weithdrefnau achredu neu reoli ansawdd ar gael, mae posibilrwydd y ceir methiant ar raddfa drawiadol os nad anogir a/neu mynnir bod sefydliadau yn dilyn yr arferion gorau cydnabyddedig. Mae'r Pwyllgor yn dymuno sicrhau bod gweithgareddau asiantaethau adfywio yn cael eu monitro ac y glynir at yr arferion gorau trwy'r sector gyfan. Gan hynny, y mae'n argymell:

***Argymhelliad 18:*** *Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu technegau monitro addas er mwyn hyrwyddo'r safonau gofynnol ym mhob asiantaeth sy'n cymryd rhan yn y broses adfywio cymunedol.*

Yn amlwg, mae'r argymhelliad hwn yn cysylltu'n glòs ag Argymhelliad 14.

## Casgliad

Wrth ystyried y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi ceisio nodi'r rhwystrau sy'n llesteirio proses adfywio cymunedol lwyddiannus, a meddwl am ffyrdd o ddileu'r rhwystrau hynny a hyrwyddo'r broses adfywio cymunedol ymysg pawb sydd â rôl i'w chwarae ynddi. Fe'i cynorthwywyd yn y gwaith hwn gan ansawdd uchel y cyflwyniadau a dderbyniwyd a natur gynhwysfawr y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mhob cam o'r broses Adolygu.

Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, fel strategaeth genedlaethol ar gyfer hyrwyddo adfywio

cymunedol, yn ffordd arloesol o fynd i'r afael â phroblemau tlodi ac anfantais gymdeithasol. Ni cheiswyd cynnal proses o adfywio cymunedol ar y fath raddfa erioed o'r blaen. Yn ogystal, ni chafwyd unrhyw ymgais flaenorol i greu rhaglen o weithgaredd adfywio cymunedol mor gynhwysfawr a thymor-hir. Yn hyn o beth, mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn mynd yn bellach na'r polisïau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gwaith o hyrwyddo adfywio cymunedol yn newydd. Bydd angen mireinio'r gwaith hwnnw, ynghyd â phroses ddatblygu esblygol ar ei gyfer. Bwriedir i'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fod yn rhan o'r broses honno.

Mae'r argymhellion yn cyflawni cylch gorchwyl yr adolygiad, sef cyflwyno sylwadau am y cyd-destun polisi ac am gyllid adfywio cymunedol. Yn ogystal, roedd gofyn archwilio rôl partneriaeth yn y broses adfywio, a nodi materion pellach. Wrth gyflawni ei amcanion, mae'r Pwyllgor yn ddyledus i'r sefydliadau a'r unigolion a gyfrannodd at yr Adolygiad.